# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio nos Fercher y 6ed o Fai 2026 am 8.45pm yn Neuadd Llanwinio.

**PRESENNOL**: Cynghowyr Huw James (Cadeirydd), Iori Saer, Dorian Lewis, Elgan Williams, Sarah Pask & Christopher Smoothy

**YMDDIHEURIADAU**: Cynghorydd Wyn Evans & Y Cynghorydd Sir Jean Lewis

**CYMHERWYD Y COFNODION GAN Y CLERC**: Liza Jones

**2: COFNODION**: Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 4ydd o Fawrth 2026 wedi ei dosbarthu cyn y cyfarfod, fe'u derbyniwyd a'u cofnodi fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDD:** Dim

**4: MATERION YN CODI:**
Roedd gweithwyr y Cyngor Sir bod yn ymweld â'r cwlfert agor ger Blanffynnon ond nid oedd unrhyw waith atgyweirio wedi cael ei wneud yno.
Roedd yr adroddiad diogelwch ar yr offer chwarae yn y parc wedi cael ei ddosbarthu I bawb.
Roedd y clerc wedi cysylltu gyda chyflenwr y Zipline ermwyn adnewyddu y teithiwr. Byddai'r materion arall a chafodd eu codi yn cael eu datrys cyn gynted a phosib. Byddai'r clerc yn ymchwilio grantiau posib.
Roedd y clerc wedi ffonio'r Cyfreithwir â oedd wedi ymddiheurio nad oedd y gwaith papur wedi cael gyflwyno eto. Byddai'r clerc yn dilyn hyn i fyny a gofyn i'r gwaith papur cael ei gyflwyno mor fuan a phosib.
Nid oedd y Cynghorydd Sir Jean Lewis wedi derbyn diweddariad parthed y biniau halen, gwastaff anghyfreithlon na phont Cwmfelinmynach.
Nid oedd y bont ger Rhydgoch wedi cael ei atgyweirio. Byddai'r clerc yn dilyn i fyny.

**5: GOHEBIAETH:**

- **A** – Derbyniwyd llythyr o ddiolch wrth Ambiwlans Awyr Cymru.
- **B** – Roedd y clerc wedi cyflwyno ffurflen VAT 126 ar gyfer ad-daliad am £885.47.
- **C** – Roedd dau gytundeb tenantiaeth wedi cael eu dychwelyd.
- **CH** – Roedd wardeniaid Eglwys St Gwynno wedi gwneud cais am arwydd i gyfeirio addolwyr i'r eglwys yn Passby gan fod nifer o bobl wedi methu cyrraedd yr eglwys. Byddai'r clerc yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir i weld beth oedd y broses.

**6: DERBYNIADAU:**
Praesept - £2000.00
Rhent – H & M James - £488.40
Rhent – R Jackson - £462.50
Rhent – Robinson - £375.60

Rhent – Hayes - £20.00
Llôg - £8.08

**7: BILIAU:**
Banc Lloyds - £4.25 (talwyd d/u)
Vision ICT – Gwefan 2026-27 - £369.00
Vision ICT – Adnewyddu parth - £30.00
Clear Councils – Yswiriant - £1046.03
Charlie Jackson – torri glaswellt - £50.00
Cyngor Sir Gâr – trydan a gwirio goleuadau stryd - £828.14
Rosemarie Davies – archwilydd mewnol - £67.50

Gan fod y clerc wedi cwblhau y cyfrifon diwedd flwyddyn, roedd wedi dod i'r golwg nad oedd dau taliad a oedd wedi eu cymeradwyo ym Mis Ionawr wedi mynd trwy'r banc. Y atliadau oedd £2500 i Cymdeithas Cymuned Llanwinio a £250 i Y Cardi Bach. Gofynnodd y clerc am ail-gymeradwyo rhain.

Cytunwyd pob taliad.

**8: DERBYN Y CYFRIFON BLYNYDDOL:**
Trafodwyd y cyfrifon a oedd wedi cael eu archwilio'n fewnol ac fe'i cytunwyd i'w cyflwyno i Archwilwyr Cymru.

**9: ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Busnes | £ 5,902.70 |
| Cyfrif Trysorydd | £19,031.01 |
| **Cyfanswm o** | **£24,933.71** |

**10: CYNLLUNIO:**
PL/10649 – Cyfnewid dau carafan preswyl am ddau fyngalo yn Maesfenni, Cwmbach, SA34 0DN.
Codwyd pryderon am y cais ond roedd y dyddiad cau am sylwadau wedi pasio.

**11: Unrhyw fater arall:**
Gofynwyd i'r clerc gadarnhau gyda Charlie Jackson mae un waith y mis roedd y parc i'w gael ei dorri.
Gofwynwyd i'r clerc ganfod a oedd eitemau casglu sbwriel ar gael wrth Cadwch Cymru'n Daclus.
Codwyd y pryderon priffyrdd fel a ganlyn:

> Rhiw Gilfach – Mae conau wedi cael eiu rhoi ar ymyl yr heol ble ae twll, ond angen llanw'r twll sydd, mae'r conau yn beryglus
> Tyllau ger Rhydgoch & Pwllrhedyn
> Cyflwr gwael yr heol yng Nghwmfelinmynch o'r Capel i Maes y Lan ac o'r Capel i Trefyw.

Byddai'r problemau yma yn cael eu adrodd i'r Cyngor Sir.
**Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher y 1af o Orffennaf 2026 am 8:00pm yn Neuadd Gymunedol Llanwinio.**